

deniadol gyfle am gnwd ffrwythlon o luniau dyfeisgar a llawn dychymyg i addurno'r straeon.

Y llyfryddiaeth safonol ddiweddaraf sydd ar gael o lenyddiaeth Aesop yw'r gyfrol: ASHBY, Anna Lou. The fox and the grapes: Aesop through the ages: a checklist of Aesopic fables in the Pierpoint Morgan Library. New York: The Pierpoint Morgan Library, 1995.


Arweinlyfr i arddangosfa ydyw, ac mae'n rhestru dros 150 o wahanol argraffiadau arbenig, y mwyafrif ohonynt fel arfer ar gadw yn Llyfrgell Pierpoint Morgan — llyfrgell sy'n arbenigo mewn deunydd prin o ddiwylliant Gorllewin Ewrop ac

sydd yn berchen ar un o'r casgliadau gorau o lenyddiaeth Aesop yn y byd. Da yw gweld y rhoddwyd i gyfrol Gregynog ei lle priodol yn yr arddangosfa, a llun Agnes Miller Parker o'r ystlum ymhlith yr ychydig luniau a gynhwyswyd yn y llyfr.

Daeth Aesop i Gymru — a gwneud argraff!

HELEN EMANUEL DAVIES

(Ychwanegodd Helen Davies ei hun at y stôr! Daeth ei chasgliad o 'Chwedlau byrion gwreiddiol ar batrwm chwedlau Aesop' yn fuddugol mewn cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Nedd a'r Cyffiniau yn 1994 ac eleni fe gyhoeddwyd ei chyfrol fuddugol gan Wasg Carreg Gwalch gyda'r teitl: *Siff a Saff a Straeon Eraill.*—Golygydd)



TRAFODWYD y print yma yn fyr yn rhifyn 56/57 o'r *Casglwr*, ond mae yna nifer o bwyntiau eraill i'w gwneud.

Erbyn hyn gwn i sicrywdd mai darlun o Aberystwyth sydd yma, yn dyddio o tua 1840. Dau beth sydd ddim yno yw'r pier — ni ddaeth tan 1865 — a'r heol sy'n rhedeg o gwmpas y Castell. Bydd trigain mlynedd eto cyn adeiladu hon. Gwelwch hefyd nad yw'r gofeb i Wellington wedi ei hadeiladu eto ar Ben Dinas — codwyd honno wedi marw'r Dug ym 1852.

Mae'r hyn sydd i'w weld yn ddi-ddorol hefyd. Mae'r castell yma, yn adfeilion ers dwy ganrif a hanner. Gwelir, ar ei bwys, y tŷ Sioraidd a godwyd gan John Nash fel tŷ haf i Syr Uvedale Price ym 1789. Adeiladwyd y gwesty, a droes wedyn yn Goleg Prifysgol Cymru, o gwmpas y tŷ hwn. Llosgwyd yr adeilad i lawr tua diwedd y ganrif er, y mae'n debyg, bod olion o'r tŷ Sioraidd

BETH YW'R GWIR? gyda GWYN DAVIES

gwreiddiol i'w gweld yn y seler o hyd. Ychydig i'r de-ddwyrain gwelir eglwys Mihangel Sant, yr ail eglwys ar y safle, a adeiladwyd ym 1833. Codwyd yr adeilad presennol ym 1890. Y mae'n ddi-ddorol sylwi fel y mae'r dyddiau yma'n caniatáu i ni benderfynu dyddiad y darlun yn weddol bendant. Sylwer hefyd nad yw patrwm strydoedd y dref wedi newid fawr, os o gwbl, er 1840.

Y mae'r adeiladau a'r nodweddion yma yn amlwg ond y mae un grŵp o adeiladau sydd wedi peri llawer o benbleth, sef y tri thŷ a welir i'r de yn edrych tua'r môr.

Awgrymwyd mai melinau gwynt sydd yma, ond nid yw

hynny'n debygol. Posibilrwydd arall yw mai simneiau'r mwyndodwr plwm a welir. Er i'r gwaith ddod i ben cyn 1840 fe ychwanegwyd at uchder yr adeilad er mwyn cynorthwyo'r morwyr ddod i mewn i'r harbwr. Anhawster hyn oedd bod y mwynodwr wedi'i leoli yn fwy i'r gogledd, ac y mae safle'r tyrau yn anaddas o ystyried safle'r harbwr.

Cefais un awgrym arall gan arbenigwr ar faterion yn ymwneud â'r môr, awgrym yr wyf yn hoffi'n fawr ond na fedraf ei brofi! Yr oedd gan y llynges a swyddogion y tollau orsafoedd semaffor o gwmpas yr arfordir yn ystod y ganrif ddiwethaf. Yr oedd gan y Morlys gadwynau ohonynt

gan gario negesau yn rhyfeddol o gyflym rhwng Llundain a phorthladdoedd fel Portsmouth a Plymouth. Roedd yna gadwyn hefyd gan farchnatwyr Lerpwl yn rhedeg o Gaergybi ar draws arfordir gogledd Cymru. Gwelir nifer o'r adeiladau hynny o hyd ond sydd erbyn hyn yn dai annedd — heb y semaffor! Os mai dyma beth oedd yr adeiladau yn Aberystwyth efallai mai'r pwrpas oedd cysylltu â llongau yn y bae, er nad yw'n amhosibl fod cysylltiad rhwng gorsafedd eraill ar yr arfordir. Gwyddom, o edrych ar hen luniau, fod yna orsafoedd tebyg ond efallai'n symlach yn Aberporth a Cheinewydd — porthladdoedd bach prysur a llawer o smyglo o'u cwmpas, yn enwedig halen oedd â tholl trwm arno yn y cyfnod hwnnw.

Tybed ai dyma oedd yn Aberystwyth ond nid oes dim wedi dod i law i brofi hynny ar fap nac mewn dogfen.



ABERYSTWYTH c. 1850, maint y llun gwreiddiol 13" x 9 1/4".